
GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

# Gwnewch eich hwyaden bersonoledig eich hun ar gyfer ein Gweithdy Coeden Nadolig



Y Nadolig hwn ryrdym yn creu ein haddurn hwyaden feddal bersonoledig ein hunain y gallwch chi ei wneud yng nghysur eich cartref i ddathlu Mair at Cylch Meithrin gan Anya Paintsil o'n casgliad. Gan wnïo a defnyddio hen hosan a thipyn o ddychymyg, cewch ddysgu awgrymiadau defnyddiol, technegau a syniadau i'ch helpu i greu eich tegan meddal eich hun.

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe Swansea Council

GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

# Bydd angen y pethau hyn:

Hen hosan fawr (a glân)

Ychydig o ddefnydd/darnau ffelt sy'n cyfer-bynnu â lliw'r hosan neu'n gweddu iddo

Nodwydd a all fynd drwy eich defnydd dewisol

Ychydig o edau

Rhywbeth i lenwi'r hwyaden (gwlân, padin, popgorn pecynnu)

Botymau neu leiniau mawr (ar gyfer y llygaid, neu gallwch ddefnyddio defnydd)

Rhuban

Siswrn ar gyfer y ffabrig

Pin

Pethau eraill ar gyfer gwneud crefftau

Eggnog/siocled poeth a bisged

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN
Cyngor Abertawe Swansea Council

**Rhan 1:** Torrwch yr hosan fel hyn. Llenwch yr hosan â phadin a gwnïo'r gwaelod drwy ddefnyddio pa bwyth bynnag yr hoffech. Ceisiwch sicrhau fod yr hwyaden yn llawn iawn. Gallwch wneud hyn drwy adael twll bach a'i lenwi cyn gorffen pwytho. Dylai edrych fel hagis newydd ei stemio.



**Rhan 2:** Torrwch ddau ddarn o ddefnydd sy'n cyferbynnu ar gyfer y pig a'u gwnïo ynghyd, gan adael yr ochr fer ar agor. Os hoffech guddio'r pwythau, trowch y pig tu fewn tu fas. Llenwch e' â phadin a'i wnïo ar eich hosan. Cofiwch, mae'n bwysig meddwl am ble yr hoffech chi roi'r llygaid a'r geg - bydd hyn yn rhoi cymeriad i'ch aderyn. Gwnïwch ddau lygad ar yr hwyaden.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government
FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN
Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Rhan 3:** Torrwch bedwar siâp fel hyn gan ddefnyddio gweddillion eich hosan ar gyfer yr adenydd. Yn debyg i'r pig, gwnïwch y ddwy ochr ynghyd, eu troi y tu fewn tu fas, eu llenwi a'u gwnïo ar yr aderyn.



**Rhan 4:** Y traed sydd nesaf. Torrwch bedwar o'r siapau hyn gan ddefnyddio'ch ffabrig cyferbyniol. Gwnïwch nhw a'u







**Rhan 5.** Atodwch ruban i'r pen, fel hyn.



**Step 6:** Addurnwch yr hwyaden i'w gwneud yn debyg i chi. Oes gan yr hwyaden eich gwallt? Eich sbectol? Eich sgarff neu'ch het? Gallwch ddefnyddio'r sgiliau rydych wedi'u dysgu heddiw i'ch helpu gyda hyn.









GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING



Unwaith i chi orffen, rhannwch lun o'ch hwyden feddal – tagiwch ni ar Facebook, Instagram a Twitter **@GlynnVivian**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe
Swansea Council